# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 19 Hydref 2016 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol Rhosgadfan** |

| | |
|---|---|
| a) | **Croeso**<br>Yn bresennol roedd Rhys Owen (Cadeirydd), Elwyn Jones, Michelle Williams, Tom Ellis, Gwilym V Jones, hefyd yn bresennol roedd Caryl Elin Lewis (Clerc) |
| b) | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Les Williams, Jason Hunt, Gwilym Lloyd Williams, Elin Evans, Nerys Evans, Neal Williams<br><br>Nid oedd Cyng Aeron M Jones yn bresennol. |
| c) | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi |
| d) | **Cadarnhau cofnodion 21 Medi 2016 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir<br><br>**Materion yn codi:**<br>Tap mynwent – O ran y mater tap yn gorlifo, cynnigwyd fod twb yn cael ei roi oddi danno i ddal y dwr, wedyn gellir defnyddio y dwr hwnnw. |
| e) | **Materion i'w trafod:**<br><br>**a) Lleoliad cyfarfodydd**<br>Nodwyd fod y cyfarfod i fod yn Canolfan Llanwnda ond ddim ond ystafell y Cylch oedd ar gael gan fod yoga yn y neuadd bob nos fercher. Gofynnodd y Clerc a oedd Aelodau felly eisiau parhau i ddefnyddio Canolfan Llanwnda gan fod yr ystafell yn fechan a mae'n creu trafferth i'r Cylch gan fod angen clirio byrddau oddi yno. Cytunwyd gan fod cyn lleied yn bresennol yn y cyfarfod byddai trafodaeth yn cyfarfod Tachwedd, yn y cyfamser bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Rhostryfan.<br>**b) Cyfarfod Rhagfyr**<br>Cytunwyd i beidio a chynnal cyfarfod yn Rhagfyr.<br>**c) Tir ychwanegol y fynwent – Gweithredoedd, cytundeb pori, manyleb wal**<br>Cyflwynodd y Clerc y gweithredoedd. Hefyd nodwyd ei fod wedi bod mewn cyswllt efo perchnogion Fferm Gadlys a nid oes gwrthewynebiad o gwbwl i arwyddo'r cytundeb pori. Bydd angen addasu'r cytundeb gan fod y drafft yn dyddio'n ol i 2013, ni chafodd ei arwyddo ar y pryd. Cytunodd Aelodau nad yw'n gwneud synnwyr cael ffens ac mai postion yn marcio'r safle allan sydd ei angen. Awgrymodd RO fod y Clerc yn derbyn templed o gytundeb pori gan Gwynedd Watkin NFU.<br>O ran manyleb ar gyfer y gwaith bydd angen cyfarfod safle, awgrymodd GVT fod hyn yn cymryd lle dros gwyliau'r Nadolig, bydd angen trafod yn y cyfarfod nesaf. Mae llawer i'w ystyried gan gynnwys sut y bydd cerrig yn cael eu cario i mewn, yr angen i ledu'r adwy a chael trac drwy'r fynwent.<br>**d) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos**<br>Nododd y Clerc fod cyfarfod nos yfory a fod gofyn am gynrychiolaeth, nid oes gwahoddiad i'r Clercod ar hyn o bryd ond mae angen gwirio hyn gan fod y Clercod gyda gwybodaeth allweddol ac angen cael eu cadw yn y pictiwr. Bydd RO yn ceisio mynychu. Gofynodd EJ i'w enw gael ei dynnu yn ol gan fod ganddo nifer o ymrwymiadau eraill.<br>**e) EJ – Lein Bryngwyn**<br>**Cyfeirwyd at ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd yn cyfeiro at** y Cynllun teithio llesol lle mae'n nodi ei fod yn orfodol i Gynghorau ddarparu llwybrau lleol ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer cerdded a beicio, gallai hyn ein helpu gyda'r gwaith o wneud darn uchaf llwybr Bryngwyn. Clerc i gysylltu gyda Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd a gweld os gall fynychu un o'r cyfarfodydd nesaf.<br>f) LW – Ger Neuadd Rhosgadfan, cerrig yn y lon<br>Nododd y Clerc fod Cyngor Gwynedd yn nodi fod angen adrodd ar hyn i'r heddlu. Ond o ran y mater sydd wrth wraidd y peth, sef cerrrig yn rhydd, bydd Cyngor Gwynedd yn edrych mewn i hyn ac yn ceisio darganfod y perchennog. Clerc yn aros am ymateb pellach.<br>g) GVT – Ras 30k pedwar llyn 2il Hydref. Angen sicrhau fod giatiau cattle grids Rhosgadfan yn cael eu cau.<br>Clerc wedi cysylltu, GVT yn nodi fod y giatiau wedi eu cau i gyd tro hwn.<br>h) GVT - Twll reit o flaen ysgol Rhosgadfan, meter dwr<br>Clerc wedi adrodd wrth Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb. GVT yn ychwanegu mai fire hydrant ydy o, ond mae'r manhole jest a syrthio mewn ar ei hun ac yn beryglus.<br>i) GVT - Ty Hen, Rhosgadfan – Problem yn parhau, dwr a cerrig yn rhedeg ir lon. Peryglus rwan at y gaeaf.<br>Clerc wedi adrodd wrth Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.<br>j) NE – Lot o loriau yn mynd a dod yn Rhos Isaf, yn mynd drwy'r caeau draw am Cae Hen.<br>Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd yn nodi eu bod yn ymwybodol o hyn ac yn monitro'r sefyllfa.<br>k) EE – Damwain arall yn Ffrwd Cae Du<br>Clerc wedi adrodd wrth Cyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Arman Bengal, Dinas – Clerc yn nodi ei fod wedi derbyn cwynion a'i bod wedi cysylltu gyda'r Adran Gynllunio a Rheolaeth Adeiladu ar ran y trigolion. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 18 Hydref 2016</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **20,336.59**<br>**Balans ar derfyn busnes 18 Hydref 2016 20,336.59**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **6,161.77**<br><br>- 101381 Sion Owen 220.00<br>- 101380 Cyngor Gwynedd – Biniau 164.25<br>- 101383 Swyddfa'r Post – PAYE 99.00<br>- 101382 Caryl E Lewis – Clerc 438.51<br>- 101379 Wyn Williams <u>1,784.50</u><br><br>**Balans ar derfyn busnes 18 Hydref 2016: 3,455.51**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19 Hydref 2016:</u>** |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflog Clerc Hydref<br>Cyllid y Wlad Hydref<br>Petty Cash<br>**Cyfanswm**<br><br>Derbyniwyd yr adroddiad ariannol a chytunwyd gyda'r taliadau uchod.<br><br>b) Archwiliad 2015/16<br>Nododd y Clerc fod llawer iawn o ohebiaeth wedi bod nol a blaen gyda cwmni BDO ac eu bod yn 'picky' iawn i weld ac wedi creu llawer iawn o waith ychwanegol i'r Clerc. Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau ac ymddengys fod llawer o glercod eraill wedi cael yr un profiad a bod nifer am wneud cwyn i Swyddfa Archwilio Cymru.<br>O ran y ffurflen flynyddol, roedd angen gwneud yr addasiadau canlynol:<br>- Newid y ffigwr yn bocs 9 ac 11 i £13,394<br>- Angen gyrru cofrestr asedau<br>- Angen nodi dyddiad a cyfeirnod cofnodion yn y blwch awdurdodi<br>- Angen addasu bocs 4 i £6,181 ac addasu bocs 6 i £12,536.<br><br>Nodwyd a derbyniwyd yr holl gywiriadau ac llofnodwyd gan y Cadeirydd RO. | 438.51<br>99.00<br>300.00<br>**837.51** |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Dim i'w nodi. | |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br>Dim i'w nodi | |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>EJ – Llwybr Bryngwyn – angen sortio 2 beth – ger Tyddyn Gwydd – angen clirio dwr sydd yn gorlifo i'r llwybr. Terfyn darn ochr arall i'r giat yn gorlifo i'r llwybr. Wal hefyd wrth ochr isaf i Foty wedi disgwyl i'r llwybr. EJ yn fodlon cwrdd a Wyn y Contractwr yno.<br>TE – dim i'w nodi<br>GVT – Lamp ochr arall i ysgol Rhosgadfan yng nghanol coed a felly ddim yn effeithiol, angen torri coed neu symud y polyn.<br>GVT - Giat yn ymyl llwybr Pen muriau, wedi tynnu camfa ond y giat ddim yn gweithio.<br>MW – Dim i'w nodi<br>RO – Dim i'w nodi<br><br>**Dyddiad: 16 Tachwedd 2016**<br>**Lleoliad: Rhostryfan** | |